Cofnodion cyfarfod cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN** a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, nos Lun, 21 Hydref 2019, am 7:00pm.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Gavin Harris (Maer), Heather Williams (Dirprwy Faer)
Y Cynghorwyr Stephen Beach, Jim Bryan, Ken Hawkins, John Wynne Hughes, Menna Jones, Ian Lewney, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts, Dave Snape, Ifan Wyn ac Emrys Wynne.
Y Cynghorydd Sir Bobby Feeley a dau aelod o'r cyhoedd.

106. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Keiran Allsopp-Robson.

107. CYFLWYNIAD GAN GYNGOR SIR DDINBYCH – CYNNIG I SYMUD ARCHIFAU SIR DDINBYCH O'R HEN GARCHAR I'R WYDDGRUG

Croesawodd y Maer dri chynrychiolydd Cyngor Sir Ddinbych, y Cynghorydd Tony Thomas, Aelod Arweiniol Tai, Rheoleiddio a'r Amgylchedd, Alan Smith, Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio a Helen Vaughan-Evans, Rheolwr Prosiect, ynghylch y cynnig i adleoli Archifau Sir Ddinbych o'r Hen Garchar i adeilad newydd yn yr Wyddgrug ar y cyd gydag Archifau Sir y Fflint. Dywedodd yr Aelod Arweiniol fod yr awdurdod lleol wedi ymrwymo i'r Carchar tan 2025, ac y dylai fod wedi ymgynghori ynghylch y cynnig gyda'r Cyngor Tref ynghynt. Esboniodd Helen Vaughan-Evans bod cyfle i wneud cais am grant Cronfa Dreftadaeth y Loteri unwaith mewn degawd am £5 miliwn ar gyfer prosiect creadigol ac arloesol. Byddai'r cynnig i uno'r archifau gyda Sir y Fflint mewn adeilad newydd yn yr Wyddgrug yn canolbwyntio ar gynnwys grwpiau ymyriad penodol fel pobl ifanc, y gymuned lesbiaid, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol, cyn droseddwyr ac ati. Byddai'r penderfyniad ynghylch y cyllid yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2020 a, phetai'n llwyddiannus, byddai cyfraniad Cyngor Sir Ddinbych tuag at y prosiect yn £2m a byddai Cyngor Sir y Fflint yn cyfrannu £3m. Dywedodd Mr Alan Smith y byddai'r cyfleuster newydd yn sicrhau lleihau'r costau cynnal yr archifau, ac y byddai pwyntiau mynediad i'r archifau yn holl lyfrgelloedd Sir Ddinbych. Gwahoddwyd yr aelodau i ofyn cwestiynau neu wneud sylwadau am y cynnig. Holodd aelodau a roddwyd ystyriaeth i ddatblygu safle'r Hen Garchar. Esboniwyd y byddai'r cynnig yn rhoi cyfle i wneud mwy gyda safle'r carchar fel atyniad ymwelwyr a'u bod wedi bod mewn trafodaethau gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i farchnata'r atyniad ar y cyd ag eiddo'r Ymddiriedolaeth, ond na fyddai datblygu'r safle ar gyfer y gwasanaeth archifau yn ddigon gweddnewidiol ar gyfer Cronfa Dreftadaeth y Loteri. Gofynnodd aelod a oeddynt wedi ymchwilio i addasu adeilad y Storfeydd Corfforaethol ar gyfer archifau. Cynigwyd sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen, yn cynnwys cynrychiolydd o Gyngor Tref Rhuthun.
PENDERFYNWYD*: nodi'r cyflwyniad ac anfon llythyr o wrthwynebiad i Gyngor Sir Ddinbych gyda chopi i Gronfa Dreftadaeth y Loteri.*

108. CYFLWYNIAD GAN GRŴP CYNEFIN – AIL RAN CYNLLUN ARFAETHEDIG LLYS AWELON

Croesawodd y Maer gynrychiolwyr Grŵp Cynefin, Dylan Roberts, Cyfarwyddwr Adfywio, a Noela Jones, Pennaeth Tai, i roi cyflwyniad ar ddatblygu ail ran arfaethedig Llys Awelon. Gwnaethant esbonio y byddai cais cynllunio llawn yn cael ei gyflwyno yn ystod yr wythnosau nesaf, gyda'r bwriad y byddai'n cael ei ystyried gan Bwyllgor Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych ym mis Ionawr neu Chwefror 2020. Byddai Llys Awelon 2 yn adeilad tri llawr gydag 17 fflat un ystafell wely a 18 fflat dwy ystafell wely.
PENDERFYNWYD*: nodi'r cyflwyniad.*

109. DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd datganiadau o fuddiant.

110. ADRODDIAD Y MAER

Ymddiheurodd y Maer nad oedd wedi darparu adroddiad a dywedodd y byddai'n rhoi manylion ar gyfer cyfarfod y mis nesaf.

111. ADRODDIADAU'R AELODAU

Cyng. Heather Williams (Dirprwy Faer)	Cyfarfodydd Gweithgor yr Hen Lys, cyfarfodydd grŵp gorchwyl a gorffen Archifau Sir Ddinbych, cyfarfod Pwyllgor Rheoli Canolfan Awelon, cyfarfod yr Is-bwyllgor Craffu Ariannol, cyfarfod Cadeirydd, Arweinydd a Phrif Weithredwr Cyngor Sir Ddinbych gyda Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned a chyfarfod gyda Swyddog Bioamrywiaeth Cyngor Sir Ddinbych.
Cyng. Keiran Allsopp-Robson	Dim i'w adrodd.
Cyng. Stephen Beach	Gwirfoddoli yn ystod penwythnos Drysau Agored, cyflwyno Gwobr Quayle i Ysgol Fonedd Rhuthun, cyfarfod blynyddol y Gymdeithas Ddinesig a Bore Coffi Macmillan.
Cyng. Jim Bryan	Cyfarfodydd Gweithgor yr Hen Lys a chyfarfodydd Pwyllgor Gŵyl Rhuthun.
Cyng. Ken Hawkins	Cyfarfod blynyddol y Gymdeithas Ddinesig a Bore Coffi Macmillan.
Cyng. John Wynne Hughes	
Cyng. Menna Jones	
Cyng. Ian Lewney	
Cyng. Jabez Oakes	
Cyng. Robert Owen-Ellis	4 sesiwn Banc Bwyd Rhuthun, arddangosfa ynghylch datblygiad arfaethedig Llys Awelon gan Grŵp Cynefin, bore coffi Macmillan, cyfarfod Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion Sir Ddinbych yn Neuadd y Sir, cyfarfod blynyddol y Gymdeithas Ddinesig a chyfarfod yr Is-bwyllgor Craffu Ariannol.
Cyng. Anne Roberts	Cyfarfodydd Gweithgor yr Hen Lys, cyfarfodydd Ymlaen Rhuthun, cyfarfodydd grŵp gorchwyl a gorffen Archifau Sir Ddinbych, cyfarfod yr Is-bwyllgor Craffu Ariannol, cyfarfod gyda Kate Harcus a chyfarfod blynyddol Cymdeithas Ddinesig Rhuthun.
Cyng. Dave Snape	Cyfarfod yr Is-bwyllgor Craffu Ariannol.
Cyng. Ifan Wyn	Dim i'w adrodd.
Cyng. Emrys Wynne	Cyfarfodydd grŵp gorchwyl a gorffen Archifau Sir Ddinbych.

112. ADRODDIADAU CYNGHORWYR SIR RHUTHUN

Derbyniodd yr aelodau adroddiad ysgrifenedig gan y tri Chynghorydd Sir sy'n cynrychioli Rhuthun ar Gyngor Sir Ddinbych.

113. COFNODION Y CYFARFOD CYFFREDIN BLAENOROL

PENDERFYNWYD*: cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Medi 2019 yn gywir.*

114. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

115. DYDDIADAU CYFARFODYDD 2020

Gofynnwyd i'r aelodau gadarnhau dyddiadau'r cyfarfodydd a'r digwyddiadau yn 2020. Tynnwyd sylw y dylai dyddiad Cinio Elusennol y Maer nodi 2021 yn hytrach na 2020. Cynigiodd y Cynghorydd Emrys Wynne y dylai'r Cinio Blynyddol gael ei gynnal ar ddiwedd blwyddyn ddinesig y Maer o hyn ymlaen.

PENDERFYNWYD*: cadarnhau'r dyddiadau, yn ddarostyngedig i newid dyddiad Cinio Elusennol*

y Maer i 16 Ebrill 2021, a mabwysiadu'r patrwm o gynnal Cinio Elusennol y Maer ar ddiwedd y flwyddyn ddinesig yn y dyfodol.

116. COFNODION Y PWYLLGOR AMWYNDERAU

Ystyriodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Hydref 2019.

***PENDERFYNWYD**: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Hydref 2019.*

117. COFNODION Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Ystyriodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Hydref 2019.

***PENDERFYNWYD**: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Hydref 2019.*

118. COFNODION YR IS-BWYLLGOR CRAFFU ARIANNOL

Ystyriodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Hydref 2019. Dywedodd Cadeirydd yr Is-bwyllgor y treuliwyd mwyafrif y cyfarfod yn edrych yn fanwl ar y Rheoliadau Ariannol enghreifftiol. Nododd aelod bod y swm a nodwyd yn y cofnodion ar gyfer anfoneb Marina Midolo yn anghywir ac y dylid ei gywiro.

***PENDERFYNWYD**: derbyn y cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Hydref 2019, yn ddarostyngedig i ddiwygio'r pwynt cywirdeb uchod.*

119. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried cais am gymorth ariannol o £1,500 tuag at yr arddangosfa tân gwyllt yn Y Ganolfan, Llanfwrog, gan Gymdeithas Cymuned Llanfwrog. Cydnabu'r aelodau fod y digwyddiad yn ymdrech ar y cyd ond bod rhai i un sefydliad gyflwyno'r cais am gymorth ariannol. Gofynnwyd am fanylion costau'r digwyddiad gyda cheisiadau yn y dyfodol. Hefyd pwysleiswyd y dylai deunyddiau hyrwyddo ac arwyddion fod yn ddwyieithog.

***PENDERFYNWYD**: darparu cymorth ariannol gwerth £1,500.00 tuag at arddangosfa tân gwyllt Rhuthun 2019 a gofyn am fanylion cost y digwyddiad gyda digwyddiadau'r dyfodol.*

120. CAIS GAN DARREN MILLAR AC I ANNERCH CYNGOR TREF RHUTHUN

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried cais gan Darren Millar, Aelod Cynulliad Gorllewin Clwyd, i annerch cyfarfod Cyngor Tref Rhuthun. Cytunodd yr aelodau i'r cais hwn a gofynnwyd i'r Clerc anfon dyddiadau i swyddfa'r Aelod Cynulliad fel y gallai ddewis dyddiad cyfleus.

***PENDERFYNWYD**: cytuno i'r cais ac anfon dyddiadau cyfarfodydd i swyddfa Darren Millar AC.*

121. GWAHODDIAD GAN URDD CYFEILLION YSBYTY RHUTHUN

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried llythyr gan Nerys Roberts, Ysgrifennydd Urdd Cyfeillion Ysbyty Rhuthun, yn gwahodd y Cyngor Tref i anfon dau gynrychiolydd i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Gweithredol nos Fercher, 13 Tachwedd 2019 am 7.30pm. Dywedodd y Cynghorydd Anne Robert y byddai'n mynd i'r cyfarfod a chynigiodd gynrychioli'r Cyngor Tref yno.

***PENDERFYNWYD:** derbyn cynnig y Cynghorydd Roberts a hysbysu Urdd Cyfeillion Ysbyty Rhuthun yn unol â hynny.*

122. CYFRANIAD CYNGOR TREF RHUTHUN I'R LLENG BRYDEINIG

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried rhoi cyfraniad o £50.00 i'r Lleng Brydeinig tuag at dorchau pabi yng ngwasanaeth Sul y Cofio.

***PENDERFYNWYD:** rhoi cyfraniad o £50.00 i'r Lleng Brydeinig tuag at dorchau pabi yng ngwasanaeth Sul y Cofio.*

123. MAES CHWARAE'R CAEAU CHWARAE COFFA

Cyflwynodd y Clerc ddiweddariad i'r aelodau ynghylch y maes chwarae. Roedd y Gymdeithas Caeau Chwarae Coffa, sy'n berchen y tir, yn dymuno un ai cael sefydliad neu grŵp cymunedol i gymryd cyfrifoldeb am reoli'r maes chwarae neu dynnu'r ffens a'r offer chwarae ymaith a defnyddio'r safle ar gyfer mannau parcio ychwanegol.

***PENDERFYNWYD:** nodi'r diweddariad a chynnal rhagor o drafodaethau gyda'r Gymdeithas*

Caeau Chwarae Coffa a thîm Datblygu Cymunedol Cyngor Sir Ddinbych.

124. DIWEDDARIAD YNGHYLCH YR HEN LYS

Adroddodd y Maer bod y gwaith uwchraddio bron â'i gwblhau hyn, yn ddarostyngedig i drydanwr yn dychwelyd i gwblhau peth gwaith. Dylai'r cyflenwad nwy gael ei ailgysylltu ar 27 Hydref, yna gellid comisiynu'r system wresogi. Dywedodd y byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgorau a'r Cyngor Tref yn cael eu cynnal yn yr Hen Lys.

PENDERFYNWYD: *diolch i'r Maer am ei ymrwymiad i'r prosiect a nodi'r cynnydd.*

125. ADRODDIAD ARCHWILIAD ALLANOL

Dosbarthwyd copi o Dystysgrif Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Adroddiad Materion yn Codi i'r aelodau. Dywedodd y Clerc mai mabwysiadu Rheoliadau Ariannol oedd yr eitem nesaf ar yr agenda ac y byddai'n cysylltu gyda'r SLCC i gael cylch gwaith enghreifftiol ar gyfer is-bwyllgorau. Gwnaeth sicrhau'r aelodau y byddai'n gofyn i'r cwmni cyfrifyddu wirio cywirdeb y datganiadau cyfrifon cyn eu cyflwyno i'r Cyngor o hyn ymlaen, ac y byddai cyflwyno'r cyfrifon a'r datganiadau cyfrifon yn eitemau ar wahân ac yn cael eu cofnodi'n unol â hynny.

PENDERFYNWYD: *derbyn y Dystysgrif Archwilio ac Adroddiad Materion yn Codi a nodi'r camau gweithredu i ymdrin â'r materion.*

126. RHEOLIADAU ARIANNOL AR GYFER CYNGOR TREF RHUTHUN

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried a mabwysiadu Rheoliadau Ariannol ar gyfer Cyngor Tref Rhuthun. Esboniodd y Cynghorydd Dave Snape bod yr Is-bwyllgor Craffu Ariannol wedi edrych ar bob cymal yn y ddogfen, ac wedi argymell dyddiadau a therfynau ariannol ar gyfer yr adrannau priodol.

PENDERFYNWYD: *derbyn argymhellion yr Is-bwyllgor Craffu Ariannol a mabwysiadu'r ddogfen fel Rheoliadau Ariannol Cyngor Tref Rhuthun.*

127. DATGANIAD ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau dderbyn a chymeradwyo'r datganiad ariannol am y cyfnod yn diweddu 30 Medi 2019.

PENDERFYNWYD: *derbyn a chymeradwyo'r datganiad ariannol am y cyfnod yn diweddu 30 Medi 2019.*

128. CYFRIFON I'W TALU

PENDERFYNWYD*: cymeradwyo talu'r eitemau a ganlyn.*

O gyfrif cyfredol Cyngor Tref Rhuthun:

100226	Sandra Williams	Costau teithio a chyflog yn ddyledus		£86.10
D.U.	BT Business	Gwasanaethau ffôn a band eang	*	£220.06
100227	Walsh Trophies	Engrafio'r cwpanau arddangosfeydd blodau 2019		£10.00
100228	Scottish Power	Ffioedd trydan yr Hen Lys 14.06.19 – 13.09.19		£53.51
100229	Dŵr Cymru Welsh Water	Gwasanaethau yn yr Hen Lys 21.03.19 – 19.09.19		£258.47
100230	Canda Copying Ltd	Rhentu'r llungopïwr a chopïau isafswm	*	£41.90
100231	Canda Copying Ltd	Copïau du a gwyn ychwanegol	*	£18.82
100232	Canda Copying Ltd	Copïau lliw ychwanegol	*	£26.71
100233	Canda Copying Ltd	Rhentu'r llungopïwr a chopïau isafswm	*	£41.90
100234	Canda Copying Ltd	Copïau du a gwyn ychwanegol	*	£8.83
100235	Canda Copying Ltd	Copïau lliw ychwanegol	*	£19.73
100236	Hill & Roberts Ltd	Gwasanaethau cyfrifyddu a chyflogres – Hydref 2019	*	£84.00
100237	Llanfwrog CIC	Gwasanaethau dyfrio – Medi 2019		£1,160.00
100238	Llanfwrog CIC	Gwasanaethau torri glaswellt – Hydref		£352.26

		2019		
100239	IT Williams Co. Ltd	Cludo'r basgedi crog a gwaredu'r gwastraff gwyrdd	*	£669.12
100240	Marian Rees	Cyfieithu ar y pryd – Hydref 2019	*	£90.00
100241	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi	Treth incwm ac yswiriant gwladol		£714.62
100242	Rick Parr (Rickx Disco)	System sain yng ngwasanaeth Sul y Cofio		£80.00
100243	Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru	Dau ginio yn dilyn y cyfarfod chwarterol 25.10.19		£32.00
O gyfrif Cyngor Tref Rhuthun – Yr Hen Lys				
100007	Oakwood Property	Rhan-daliad cyntaf	*	£10,551.30
100008	Cyng. Gavin Harris	Stribedi dal goleuadau LED, offer cegin, unedau sain yn y nenfwd, system camerâu cylch cyfyng a staen pren mewnol	*	£2,335.26
100009	Cyng. Gavin Harris	12 cwpwrdd ffeilio, rhannau i'r goleuadau crog a hob i'r gegin	*	£632.47
100010	Oakwood Property	Ail ran-daliad	*	£10,551.30
100011	Construction Project Safety	Gwasanaethau Rheoli Dylunio ac Adeiladwaith	*	£540.00
100012	Oakwood Property	Trydydd rhan-daliad	*	£10,551.30
100013	Oakwood Property	Pedwerydd rhan-daliad	*	£10,551.30
100015	Cyng. Gavin Harris	Ceblau sain, staen pren allanol, socedi a danfon nwyddau gan gwmni Berwyn Slate	*	£1,288.85
100016	Oakwood Property	Pumed rhan-daliad	*	£10,551.30
100017	Oakwood Property	Siec yn lle siec rhif 100016	*	£10,551.30

129. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD*: cadarnhau mai dyddiad y cyfarfod cyffredin nesaf fydd nos Lun, 25 Tachwedd 2019 am 7.00pm yn yr Hen Lys, Sgwâr Sant Pedr.*